



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad:

**Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Gwasanaethau Addysg
Llywodraeth Leol (GALIL)**

Rhagfyr 2023

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Methodoleg.....	1
3. Proffil yr ymatebwyr	1
4. Canlyniadau.....	4
5. Y Camau Nesaf.....	18

Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL)

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dadansoddiad manwl o Ganlyniadau'r Ymgynghoriad ar gyfer Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL)

2. Methodoleg


Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w llenwi naill ai ar-lein neu all-lein (dogfen PDF i'w llenwi a'i dychwelyd drwy'r e-bost neu drwy'r post). Lansiom yr arolwg ar 29 Medi 2023 ac fe gaeodd ar 30 Tachwedd 2023.

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau testun rhydd eu grwpio'n themâu. Mae ymatebion cyffredin wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn i gyfleu'r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â phob cwestiwn – er, mae niferoedd yr ymatebion testun rhydd yn nodweddiadol isel ac nid ydynt o reidrwydd yn gynrychiolaidd o'r boblogaeth gyfan. Fe wnaeth y rhain gynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle y cafodd elfennau o nifer o ymatebion eu crynhoi). Dilynwyd Arweiniad Ysgrifennu Estyn wrth ddisgrifio cyfrannau'r ymatebion (e.e. mae 'ychydig' yn cyfateb i lai nag 20% o ymatebwyr).

3. Proffil yr ymatebwyr

Cawsom gyfanswm o 43 ymateb i holiadur yr ymgynghoriad er bod 5 o ymatebwyr wedi methu ateb unrhyw gwestiynau. Felly, nifer effeithiol yr ymatebion yw 38. Darparodd bron bob un o'r ymatebwyr hyn (ymhell dros 90% ohonynt) ymatebion i'r holl 'gwestiynau dewislen' (h.y. y cwestiynau â set o atebion wedi'u diffinio ymlaen llaw). Roedd nifer yr ymatebion i gwestiynau testun rhydd unigol yn amrywio o 9 i 20 (h.y. 24% i 57% o ymatebwyr). Bydd y cyfraddau ymateb penodol yn cael eu cynnwys wrth drafod cwestiynau unigol trwy gydol yr adroddiad.


Ffigur 1: Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.



Ni chafwyd unrhyw ymatebion naill ai gan ddisgyblion ysgol na rhieni/gofalwyr.

Hefyd, gofynnem i ymatebwyr pa sector yr oeddent yn ei gynrychioli.

Ffigur 2: Pa sector(au) ydych chi'n ei gynrychioli/eu cynrychioli? Dewiswch yr holl opsiynau perthnasol.




Mae rhai ymatebwyr yn cynrychioli mwy nag un sector. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan unigolion yn cynrychioli'r sector gwirfoddol.

4. Canlyniadau

4.1 Ymatebion i Gynigion

Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig canlynol: **Rydym yn cynnig cynnal arolygiad ar wahân o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaeth ffurfiol o ddau awdurdod lleol neu fwy. Bydd yr arolygiadau o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy gytundebau partneriaeth ffurfiol yn edrych ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau gyda chwestiynau arolygu lleol yn darparu meysydd ffocws penodol ar gyfer y gwaith hwn.**

Ffigur 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?




Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth gref – gyda 74% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 3% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 23% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Darparodd 16 o'r 39 (41%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y thema fwyaf cyffredin, a gafodd ei chrybwyll yn hanner y sylwadau (8 o 16 – 50%), oedd osgoi dyblygu: *Caiff Gwasanaethau Gwella Ysgolion eu harolygu hefyd fel rhan o arolygiadau Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ac yn golygu bod yr un Gwasanaethau Gwella Ysgolion a ddarperir trwy gonsortia rhanbarthol yn cael eu harolygu sawl tro gan wahanol AEF yn ystod cylch arolygu.*

Yna, gofynnem am y farn am y datganiad canlynol: **Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi hysbysiad 10 wythnos ar gyfer arolygiad GALIL. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal y gweithgareddau cyn-arolygiad, fel trafod a chwblhau'r cwestiynau arolygu lleol, cyflwyno'r holiaduron i ddinasyddion a phenaethiaid a chynnal y sesiynau cyn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol cyn wythnos yr arolygiad. Rydym yn cynnig byrhau'r cyfnod hysbysu o ddeg wythnos i wyth wythnos. Byddai hyn yn caniatáu amser i ni gynnal y gweithgareddau cyn-arolygiad o hyd. Byddwn hefyd yn hysbysu'r awdurdod lleol y byddwn yn arolygu eu gwasanaethau ieuentid fel arolygiad ar ei ben ei hun bedair wythnos ar ôl dechrau cyfnod hysbysu'r GALIL. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried a chynnwys y negeseuon allweddol o'r arolygiad ieuentid yn ein harolygiad GALIL.**

Ffigur 4: Beth yw eich barn?




Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 56% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 21% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 23% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Darparodd 17 o 39 (44%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Datganodd tua hanner y sylwadau (7 o 17 – 41%) fod hwn yn gynnis synhwyrol a boddhaol. Fe wnaeth lleiafrif o sylwadau (6 o 17 – 35%) gwestiynu pam mae'r cyfnod hysbysu mor hir, gydag ychydig yn dweud *bod gan ysgolion gyfnod hysbysu sy'n amlwg yn fyrrach*.

Yna, gofynnem am y cynnig: **Hysbysiad ar gyfer arolygiad gwasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol. Rydym yn cynnig cael cyfnod hysbysu pum wythnos ar gyfer arolygiad gwasanaeth**

gwella ysgolion ac arolygiadau o wasanaethau eraill a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser i ni drafod a chwblhau'r cwestiynau arolygu lleol, a chyhoeddi a dadansoddi'r holiaduron perthnasol cyn ein hymweliadau ar y safle.

Ffigur 5: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gael cyfnod hysbysu o bum wythnos ar gyfer yr arolygiadau o wasanaethau gwella ysgolion?




Cafwyd cefnogaeth cadarnhaol, ar y cyfan, ar gyfer y cynnig hwn – gyda 56% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 28% o'r rhai atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 15% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Darparodd 14 o 39 (36%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Teimlai lleiafrif (3 o 14 – 21%) fod y cynnig yn rhoi digon o amser i baratoi'r logisteg a'r wybodaeth ofynnol ar gyfer yr arolygiad.

Fe wnaeth lleiafrif (5 o 14 – 36%) gwestiynu pam mae'r cyfnod hysbysu mor hir, gan ddweud *bod gan ysgolion gyfnod hysbysu sy'n amlwg yn fyrrach*.

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol: **Rydym yn cynnig parhau â datblygu cwestiynau arolygu lleol a thrafod a chwblhau'r rhain gyda'r awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion neu wasanaethau eraill a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol.** Rydym yn meddwl bod cwestiynau arolygu lleol yn darparu ffocws cymesur ar gyfer ein gwaith arolygu, tra'n sicrhau hefyd fod yr arolygiadau'n ymdrin â'r meysydd pwysicaf.

Ffigur 6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem barhau i ddefnyddio 'cwestiynau arolygu lleol' ar ein harolygiadau GALIL?




Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth gref – gyda 85% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 5% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 12 o 39 (31%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Cytunodd bron i hanner y sylwadau (5 o 12 – 42%) â'r cynnig. Cytunodd eraill hefyd ond roedd lleiafrif (3 o 12 – 25%) o'r farn y *dylid cytuno ar y cwestiynau arolygu lleol gyda'r ALI*. Roedd lleiafrif arall (3 o 12 – 25%) o'r farn y *dylid bod uchafswm nifer o gwestiynau arolygu lleol*.

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol: **Rydym hefyd yn cynnig datblygu cwestiynau arolygu lleol ar gyfer ein harolygiadau gwasanaethau gwella ysgolion, yn ogystal â'n harolygiadau o wasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol.**

Ffigur 7: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem gael cwestiynau arolygu lleol ar gyfer ein harolygiadau gwasanaethau gwella ysgolion ac ar gyfer gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol?




Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth gref – gydag 87% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd un ymatebydd (3%) yn anghytuno'n gryf â'r cynnig.

Darparodd 10 o 38 (26%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Fe wnaeth bron i hanner y sylwadau a gafwyd (4 o 10 – 40%) gytuno â'r cynnig ond roeddent am rywfaint o sicrwydd y byddai proses addas a ffurfiol i gytuno ar y cwestiynau arolygu lleol ymlaen llaw.

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol: **Mae ein harweiniad arolygu presennol yn cynnwys tri maes arolygu – deilliannau, gwasanaethau addysg ac arweinyddiaeth. Rydym yn cynnig cyfuno'r deilliannau a'r meysydd gwasanaeth mewn un maes arolygu, sef 'gwasanaethau addysg a'u heffaith'. Rydym yn meddwl y bydd cryfhau'r cysylltiad rhwng gweithredoedd a deilliannau yn gwneud ein hadroddiadau'n fwy hygyrch. Er enghraifft, gallem adrodd ar y gwaith y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i wella presenoldeb a chreu'r cysylltiad â'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i'r cyfraddau presenoldeb yn ei ysgolion a'i UC Dau. Meysydd arolygu presennol IMA1 Deilliannau IMA2 Gwasanaethau addysg IMA3 Arweinyddiaeth. Ein meysydd arolygu arfaethedig IMA1: Gwasanaethau addysg a'u heffaith IMA2: Arwain a gwella.**

Ffigur 8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gyfuno'r deilliannau a'r meysydd gwasanaeth mewn un maes arolygu ar gyfer ein GALIL, ein gwasanaethau gwella ysgolion a'n gwasanaethau a ddarperir trwy arolygiadau partneriaethau ffurfiol?




Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gydag 80% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 3% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 16 o 39 (41%) o'r ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Nid oedd unrhyw themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg. Fodd bynnag, diddorol oedd bod 2 sylw yn galw am *gysylltiad â chyrhaeddiad*, a 3 sylw yn datgan *bod unrhyw gysylltiad hanesyddol â chyrhaeddiad yn amhriodol ac na ddylid ei wneud wrth osod nodau*.

Yna, gofynnem am farn ar: **Disodli ein dull presennol ag ymweliadau monitro rheolaidd. Ar hyn o bryd, pan fernir bod gwasanaeth addysg llywodraeth leol yn achosi pryder sylweddol, rydym yn trefnu cynhadledd wella i drafod a chytuno ar flaengynllun gwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion. Y mynychwyr yn y gynhadledd hon yw'r rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â chynnal a chefnogi cynllun gwella'r awdurdod lleol. Tua blwyddyn yn ddiweddarach, rydym yn trefnu 'cynhadledd gynnydd' sy'n ystyried y cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynllun gwella. Rydym fel arfer yn trefnu ymweliad monitro tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd gynnydd. Mae'r ymweliad monitro yn cynnwys tîm o arolygwyr yn ymweld â'r awdurdod lleol i werthuso'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau a phennu p'un a yw'r awdurdod lleol wedi gwneud gwelliannau digonol ac nad yw'n achosi pryder sylweddol. Mae amseriad yr ymweliad**

monitro yn dibynnu ar gyfradd y cynnydd a wnaed gan yr awdurdod lleol wrth fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella. Rydym yn cynnig y bydd ein proses gweithgarwch dilynol yn parhau i ddechrau gyda chynhadledd wella, ond mai ymweliadau monitro yn edrych ar argymhellion monitro dros gyfnod yw'r gweithgareddau dilynol. Credwn fod y dull hwn yn fwy buddiol i awdurdodau lleol gan ei fod yn rhoi adborth uniongyrchol iddynt ar eu gwaith ac yn eu helpu i ystyried eu camau nesaf. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd gwell iddynt ddangos eu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella. Wedi i ni farnu bod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn pob un o'r argymhellion, byddant yn cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol.

Ffigur 9: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddefnyddio ymweliadau monitro rheolaidd fel rhan o'n gweithgareddau dilynol mewn awdurdodau lleol sy'n achosi pryder sylweddol?




Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 92% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 3% o'r rhai a atebodd a anghytunodd â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 14 o 37 (38%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Canolbwyntiodd bron i hanner y sylwadau (6 o 13 – 46%) ar un cwestiwn – *Os bydd ffocws penodol ym mhob cyfarfod ar argymhelliad unigol ac mae digon o dystiolaeth bod cynnydd digonol wedi'i wneud, a ellid 'ticio' wedyn yr aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus wrth fynd rhagddo yn hytrach nag ar ddiwedd y cyfnod adolygu ffurfiol?*

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol: **Rydym yn cynnig datblygu'r un prosesau gweithgarwch dilynol ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion neu wasanaeth a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol sy'n 'achosi pryder sylweddol'.**

Ffigur 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig i ddarparu gweithgarwch dilynol ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion neu wasanaeth a ddarperir trwy bartneriaeth ffurfiol sy'n achosi pryder sylweddol?




Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gydag 82% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 8% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 10 o 38 (26%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Mae lleiafrif o sylwadau (3 o 10 - 30%) wedi awgrymu y *credwn y dylai arolygiadau Gwasanaethau Gwella Ysgolion fod yn rhaglen dreigl yn hytrach na'n 'ddigwyddiad arolygu'*. Byddai hyn yn cynnig deialog parhaus gydag *Estyn ac yn rhoi hyder a sicrwydd parhaus i randdeiliaid trwy adroddiad ysgrifenedig a gyhoeddir yn flynyddol. Ni fyddai angen categori 'Gweithgarwch dilynol' o dan raglen dreigl flynyddol o arolygiadau.*

Yna gofynnem am: **Rydym yn cynnig nodi gofynion adrodd ar gyfer ein holl arolygiadau GALIL a gwasanaethau gwella ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym ni werthusiadau o'r meysydd allweddol hyn yn ein holl adroddiadau. Mae ein harweiniad drafft yn nodi'r canlynol fel gofynion adrodd: Rhaid i adroddiadau ymdrin â'r canlynol:**

- **Effaith gwaith meysydd gwasanaeth ar gynnydd, lles, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr**
- **Tegwch yn y system addysg**
- **Y Gymraeg**
- **Diogelu**

Ffigur 11: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd yr ydym wedi nodi eu bod yn ofynion adrodd ar gyfer ein harolygiadau GALIL?




Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gydag 80% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 10% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Darparodd 11 o 39 (28%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Cyfeiriodd lleiafrif (3 o 11 – 27%) o'r sylwadau at y ffaith bod 'effaith' Gwasanaethau Gwella Ysgolion wedi cael ei chysylltu'n amhriodol â chynnydd dysgwyr a dangosyddion perfformiad diwedd cyfnod allweddol. Dim ond ysgolion sy'n cael effaith uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.

Y cwestiwn nesaf oedd:

Ffigur 12: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd yr ydym wedi nodi eu bod yn ofynion adrodd ar gyfer ein harolygiadau o wasanaethau gwella ysgolion?




Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 77% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 13% o'r rhai atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno)

Darparodd 10 o 39 (26%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y thema allweddol sy'n cael ei chrybwyll yn hanner y sylwadau (5 o 10 – 50%) yw atebolrwydd: *Nid cyfrifoldeb y consortiwm rhanbarthol yw pob maes sy'n cael ei restru uchod. Sut bydd Estyn yn sicrhau bod fframwaith cyffredin a theg ar gyfer arolygu gwasanaethau gwella ysgolion sy'n cael eu darparu trwy gonsortia rhanbarthol a'r Awdurdodau Lleol hynny sydd â'u gwasanaeth gwella ysgolion eu hunain?*

Yna, gofynnem am yr astudiaethau achos rydym yn eu rhannu ar-lein er mwyn rhannu arfer ddiddorol ac effeithiol.

Ffigur 13: Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn nodi arfer ddiddorol ac effeithiol a allai fod yn fuddiol i ddarparwyr eraill. Ar hyn o bryd, rydym yn rhannu'r arfer hon fel astudiaethau achos ar ein gwefan. Pa mor ddefnyddiol yw'r astudiaethau achos hyn, yn eich barn chi?




Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod yr astudiaethau achos yn ddefnyddiol:

- 18% *Eithriadol o ddefnyddiol*
- 36% *Defnyddiol iawn*
- 41% *Gweddol ddefnyddiol*

Ni chafwyd unrhyw sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Doedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud â defnyddio cameos: **Rydym hefyd wedi cynnwys cameos i amlygu arfer ddiddorol, arloesol neu effeithiol o fewn naratif yr adroddiad arolygu, fel defnyddio blwch wedi'i amlygu yn y testun.**
Ffigur 14: Pa mor ddefnyddiol yw'r dull hwn, yn eich barn chi?



Cafwyd cefnogaeth gymharol gryf i hyn – gyda 64% o'r rhai a atebodd o'r farn bod cameos yn ddefnyddiol (naill ai'n eithriadol o ddefnyddiol, yn ddefnyddiol iawn neu'n weddol ddefnyddiol). Nid oedd 3% o'r rhai a atebodd o'r farn bod cameos yn ddefnyddiol o gwbl.

Darparodd 10 o 39 (26%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Awgrymodd lleiafrif (4 o 10 - 40%) o sylwadau bod cameos yn ffordd wych o ddysgu arfer orau gan eraill. Ond awgrymodd tua (4 o 10 - 40%) o sylwadau nad oedd budd pendant gan gameos.

Dilynom hyn i fyny trwy ofyn: **Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffordd orau y gallem rannu arfer effeithiol i gael yr effaith fwyaf?**


Darparodd 20 o 38 (53%) o ymatebwyr farn.

Y ddau ymateb mwyaf poblogaidd oedd:

- 7 o 20 (35%) o ymatebwyr – Ar-lein trwy'r Wefan, Gweminarau, HWB. Cynnwys dolenni i fideos a chameos arfer orau
- 5 o 20 (25%) o ymatebwyr – Digwyddiadau gan gynnwys cynadleddau a hyfforddiant. Wyneb yn wyneb ac ar-lein

Y cynnig nesaf: Yn ogystal ag arolygu, rhan allweddol o'n gwaith gydag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yw ein hymgysylltiadau ag arolygwyr cyswllt. Byddwn yn parhau ag arolygydd cyswllt dynodedig ar gyfer pob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion, a bydd eu gwaith yn bennaf yn cynnwys bod yn bwynt cyswllt a chasglu diweddariadau cyffredinol gan yr awdurdod lleol am eu gwasanaethau, a fydd yn ein helpu i nodi sicrwyddau a risgiau allweddol yr ALI. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi peilota dull testun lle rydym yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar waith yr awdurdod lleol neu'r gwasanaeth gwella ysgolion i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r cryfderau a'r ystyriaethau posibl ar gyfer symud ymlaen. Rydym yn cynnig datblygu'r dull hwn trwy gynnal ymweliad blynyddol hefyd â thîm bach o arolygwyr i bob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion a fydd yn arwain at adroddiad cyhoeddedig gwerthusol byr. Byddwn yn cytuno ar y maes ffocws gyda'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion ymhell ymlaen llaw er mwyn gallu trefnu bod y swyddogion perthnasol ar gael ar gyfer yr ymgysylltu. Rydym yn meddwl y bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ni o waith pob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion mewn meysydd penodol, tra'n darparu adborth adeiladol buddiol hefyd i'r swyddogion dan sylw.

Ffigur 16: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau ag arolygydd cyswllt ar gyfer pob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion?




Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gydag 82% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 8% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno)

Darparodd 14 o 39 (36%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y sylw mwyaf cyffredin, a grybwyllwyd gan leiafrif (5 o 14

– 36%) oedd: *Roedd hi'n ddefnyddiol cynnal trafodaeth agored gydag Estyn trwy waith Arolygwyr Cyswllt. Mae'n bwysig cael cysondeb yn nosbarthiad yr AEF fel eu bod yn cael datblygu dealltwriaeth fanylach o'r ALI neu'r consortiwm rhanbarthol. Dylid cynnwys Arolygydd Cyswllt yr ALI mewn arolygiadau GALIL / consortiwm rhanbarthol er mwyn rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a gasglwyd o ymweliad Arolygydd Cyswllt yr ALI.*

Roedd y cwestiwn nesaf am ymweliad blynyddol â ffocws â phob awdurdod lleol / gwasanaeth gwella ysgol i edrych ar agwedd benodol ar eu gwaith:

Ffigur 17: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynnal ymweliad blynyddol â ffocws â phob awdurdod lleol / gwasanaeth gwella ysgolion i edrych ar agwedd benodol ar eu gwaith?




Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 79% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 11% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Rhoddodd 13 o 38 (34%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Ymddangosodd y sylw mwyaf cyffredin mewn lleiafrif o arsylwadau (3 o 13 – 23%). *Mae'n caniatáu mwy o ymglymiad gan arolygwyr i ddod â mwy o arbenigedd. Mae'n caniatáu am adolygiad â mwy o ffocws o waith yr ALI a dylai annog ALLau i ofyn am fwrw golwg fanylach ar agweddau ar eu gwasanaeth at ddibenion gwella. Mae angen iddo ddyfnhau'r deialog broffesiynol fuddiol i bawb a rhaid iddo osgoi dod yn arolygiad blynyddol trwm.*

Roedd y cwestiwn terfynol yn ymwneud ag ymgymryd â gweithgareddau penodol gan yr arolygydd cyswllt: **Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwerthuso effaith gwaith yr awdurdod lleol yn ffurfiol o ran cefnogi ysgolion ac UC Dau unigol mewn mesurau arbennig. Rydym yn cynnig y dylai'r arolygydd cyswllt gynnal gweithgareddau penodol a allai gynnwys ymuno â'r tîm monitro neu ymweld â'r ysgol yn annibynnol ar y tîm monitro, er enghraifft, i ystyried a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Canlyniad y gwaith hwn fydd llythyr byr at yr awdurdod lleol. Rydym yn cynnig y bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gynnal bob 12 i 16 mis, fel arfer.**

Ffigur 18: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig ein bod yn cynnal gweithgareddau yn gwerthuso effaith cymorth yr awdurdod lleol ar y cynnydd a wneir mewn ysgol neu UCD unigol mewn mesurau arbennig?



Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 72% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Fe wnaeth 10% o'r rhai a atebodd anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Fe wnaeth 14 o 39 (36%) o ymatebwyr roi barn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Cyfeiriodd bron i hanner y sylwadau (6 o 14 – 43%) at y cymorth sy'n cael ei roi i ysgolion: *Mae angen monitro ansawdd cymorth yr awdurdod lleol yn fanylach o ran effeithiolrwydd. Heb hyn, dim ond dibynnu ar wybodaeth ail-law y mae Estyn.*

5. Y Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r trefniadau arolygu newydd o 2024 ymlaen.